

Prynu sgwter



Deunyddiau cymorth i athrawon



Blwyddyn 4 Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth – Prynu sgwter

Mae'r gweithgareddau hyn ar gyfer Blwyddyn 4 yn cynnig cyfleoedd i weithio gydag arian a chalendrau.

Gweithgaredd 1

Prynu sgwter

Bydd y dysgwyr yn defnyddio calendr i benderfynu am faint o wythnosau y byddai'n rhaid iddyn nhw gynilo er mwyn cael digon o arian i brynu sgwter.

Mae'n cynnwys:

- Cwestiwn – Prynu sgwter
- Cynllun marcio



Gweithgaredd 2

Cynilo i brynu

Wedyn, byddan nhw'n penderfynu am faint o amser byddai'n rhaid iddyn nhw gynilo er mwyn cael digon o arian i 'brynu' eitem o'u dewis nhw eu hunain.

Mae'n cynnwys:

- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon
- Taflen i athrawon – Arian poced

Gweithgaredd 3

Dydd Gwener y 13eg

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sawl dydd Gwener y 13eg sydd mewn blwyddyn.

Mae'n cynnwys:

- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon

Y sgiliau rhesymu sydd eu hangen

Adnabod

Bydd y dysgwyr yn paratoi eu cynllun cynilo eu hunain, gan weithio'n rhesymegol a chadw cofnod o bob cam.

Cyfathrebu

Byddan nhw'n penderfynu pa wybodaeth i'w hysgrifennu ac yn cyflwyno'u gwaith i barau/grwpiau eraill.

Adolygu

Byddan nhw'n adolygu eu cynllun i sicrhau ei fod yn realistig ac yn gwirio'u gwaith i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr.

Sgiliau gweithdrefnol

- Dehongli calendrau
- Adio a thynnu arian
- Defnyddio llusoi a rhannu wrth ddatrys problemau

Gweithgaredd 1

Prynu sgwter

Gweithgaredd 1 – Prynu sgwter



Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn defnyddio calendr i geisio darganfod pa bryd y bydd Jane wedi cynilo digon o arian i brynu sgwter. Byddan nhw'n penderfynu drostyn nhw eu hunain sut i ddefnyddio'r calendr a sut i ddangos eu gwaith bras.



Bydd angen



Cwestiwn – Prynu sgwter
Un dudalen i bob dysgwr



Cynllun marcio

Mae Jane eisiau prynu'r sgwter hwn.



Medi'r 1af yw hi heddiw.

Rwyf wedi cynilo **£12** hyd yma.

Bob **dydd Sadwrn**, bydd Jane yn cynilo **50c** arall.


Ar ba ddyddiad bydd hi'n gallu prynu'r sgwter?

Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		



Gweithgaredd 1 – Prynu sgwter – Cynllun marcio

Marciau	Ateb
3m	Yn rhoi'r ateb 11 (eg) Hydref , 12 (fed) Hydref neu 13 (eg) Hydref (anwybyddwch unrhyw ddiwrnod o'r wythnos a ysgrifennir wrth ymyl yr ateb)
Neu 2m	Yn rhoi'r ateb 11 (eg), 12 (fed) neu 13 (eg) ond heb nodi Hydref (peidiwch â derbyn mis anghywir ar gyfer 2 farc) Neu Yn dangos neu'n awgrymu y bydd angen 6 wythnos iddi gynilo, e.e. Cylch o amgylch unrhyw 6 dydd Sadwrn olynol ar y calendr
Neu 1m	Yn rhoi'r ateb 4 (ydd) Hydref , 5 (ed) Hydref neu 6 (ed) Hydref Neu Yn rhoi'r ateb 18 (fed) Hydref , 19 (eg) Hydref neu 20 (fed) Hydref Neu Yn dangos neu'n awgrymu bod chwech 50c mewn £3 , e.e. 6 i'w weld $50 + 50 + 50 + 50 + 50 + 50$ - Cylch o amgylch 6 diwrnod yn olynol ar y calendr

Bydd rhai dysgwyr yn tybio os bydd yr arian ganddi ar yr 11eg na fydd hi'n gallu prynu tan y 12fed

◀ A bydd rhai hefyd yn tybio bod y siop berthnasol ar gau ar ddydd Sul ac felly na fydd hi'n gallu prynu tan y 13eg

◀ Un wythnos yn brin

◀ Un wythnos yn ormod

Gweithgaredd 1 – Prynu sgwter – Enghreifftiau



Mae angen £3
50 + 50 + 50 + 50
+ 50 + 50

11 Hyd

Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

Cywir; **3 marc**

- Mae'r dysgwr hwn yn dangos cyfathrebu rhifiadol effeithiol.



6ed = 12.50
13eg = 13.00
20 = 13.50
27 = 14.00
4 = 14.50
11 = 15.00

11eg ✗ ✗

Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

11eg ond dim mis; **2 farc**

- Mae'r dysgwr hwn yn dewis strategaeth effeithiol sef cynyddu'r arian fesul 50c bob wythnos. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi'r mis.



Sul 5 Hyd

Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

5ed Hydref; **1 marc**

- Mae'r dysgwr hwn wedi tybio nad oes modd prynu'r sgwter tan y diwrnod ar ôl cynilo'r arian. Byddai'n ddefnyddiol trafod ar ôl y prawf pam mae'r ateb un wythnos yn brin.



4 Hydref

Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35

Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

4ydd Hydref; **1 marc**

- Mae'r dysgwr hwn yn dangos ei fod yn anghyfarwydd â chalendrau drwy gynnwys dyddiadau nad ydyn nhw'n bodoli. Mae cynnwys 34 Medi yn golygu ei fod wedi cyfrif wythnos ychwanegol gan roi'r ateb 4(ydd) Hydref. Mae hwn yn wall cyffredin.

Gweithgaredd 2

Cynilo i brynu

Gweithgaredd 2 – Cynilo i brynu



neu



Amlinelliad

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Prynu sgwter**.

Gan weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach, bydd y dysgwyr yn dewis eitem o gatalog y bydden nhw'n hoffi ei 'phrynu'.

Wedyn, byddan nhw'n ceisio cyfrifo pa bryd y byddan nhw wedi cynilo digon i brynu'r eitem honno, gan ddefnyddio eu harian poced 'nhw'. Bydd swm yr arian poced hwnnw'n cael ei ddyrannu ar hap.

Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'u gwaith i weddill y dosbarth a byddan nhw'n adolygu'r cynllun cynilo a pha mor ymarferol ydyw.



Bydd angen



Calendrau ar gyfer y flwyddyn gyfredol

Mae'r rhain ar gael yn hwylus ar lein, e.e.

www.calendarlabs.com/online-calendar.php (Saesneg yn unig)



Catalogau yn dangos eitemau i'r dysgwyr eu 'prynu'



Taflen i athrawon – Arian poced

Torrwch hon yn gardiau: bydd pob pâr/grŵp yn dewis un



Siswrn



Glud

Gweithgaredd 2 – Cynilo i brynu



Esboniwr

Trafodwch gyda'r dysgwyr a ydyn nhw wedi cynilo i brynu rhywbeth erioed.

Esboniwrch eu bod yn mynd i gael ychydig o arian poced ffug i weithio mewn parau/grwpiau. Wedyn, byddan nhw'n dewis rhywbeth yr hoffen nhw ei 'brynu', cyn cyfrifo faint o wythnosau y byddai'n eu cymryd iddyn nhw gynilo'r arian sydd ei angen arnyn nhw.

Gadewch i bob pâr/grŵp bach ddewis ar hap o'r cardiau sy'n dangos faint o arian poced y byddan nhw'n ei gael bob wythnos (*gwnnewch yn siŵr eu bod yn deall ystyr hyn, a'ch bod yn ymdrin yn sensitif â materion sy'n berthnasol i ddysgwyr nad ydyn nhw'n cael arian poced*).

Gan ddefnyddio catalogau, neu rhywbeth tebyg, byddan nhw'n dewis rhywbeth yr hoffen nhw gynilo i'w brynu.

Rhowch galendr (y flwyddyn gyfredol) iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw gyfrifo faint o amser fyddai ei angen arnyn nhw i gynilo digon i brynu'r eitem maen nhw wedi'i dewis.

Anogwch y dysgwyr i ystyried pa mor realistig fyddai cynilo ar gyfer yr eitem honno: er enghraifft, os ydyn nhw ond yn cael 10c yr wythnos, a'u bod wedi dewis cyfrifiadur, byddai cynilo digon i'w brynu'n cymryd gormod o amser o lawer, felly efallai y byddai'n well iddyn nhw ddewis eitem wahanol.

Gofynnwch iddyn nhw gyflwyno'u gwaith drwy dorri allan y llun o'r eitem maen nhw wedi'i dewis (*os yw hyn yn briodol*) a'r calendr, eu gludo ar eu papur/cerdyn, ac wedyn dangos eu gwaith ym mha ffordd bynnag maen nhw'n ei dewis.

Gall y gweithgaredd orffen gyda'r parau/grwpiau bach yn cyflwyno'u 'cynllun' i weddill y dosbarth er mwyn iddyn nhw wirio'i gywirdeb a pha mor realistig ydyw o safbwynt cynilo 'mewn amser go iawn'.

Neu

Paratowch daflen waith sy'n llawn lluniau o deganau i ddewis ohonyn nhw, a'u prisiau.



Holwr

- A yw'n realistig i chi gynilo ar gyfer yr eitem rydych chi wedi'i dewis? Mewn bywyd go iawn, ydych chi'n meddwl y byddech chi'n gallu cadw at eich cynllun?
- Beth yw'r ffordd orau (*fwyaf effeithiol*) o gyfrifo faint o wythnosau y byddai'n eu cymryd i chi gynilo? Pam mae lluosin gyflymach nag adio drosodd a throsodd?
- Sut allwch chi gyflwyno'ch gwaith er mwyn iddo fod yn ddiddorol i bobl eraill ac er mwyn iddo wneud synnwyr?

Gwaith ymestynnol

- Beth os yw'r eitem rydych chi am ei phrynu yn anrheg i rywun arall ar gyfer y Nadolig (neu eu pen-blwydd)? Allwch chi gyfrifo faint o wythnosau fyddai gennych o nawr, a faint fyddai'n rhaid i chi ei gynilo bob wythnos?

10c	20c	50c	£1
10c	20c	50c	£1

Cyn dechrau'r gweithgaredd, torrwch y cardiau a'u rhoi mewn het (neu rywbeth tebyg).

Yna, bydd pob pâr/grŵp yn dewis un o'r cardiau. Bydd hwn yn dweud wrthyn nhw faint o arian poced sydd ganddyn nhw i'w 'gynilo' bob wythnos.

Gweithgaredd 3

Dydd Gwener y 13eg

Gweithgaredd 3 – Dydd Gwener y 13eg



neu



Amlinelliad

Bwriedir i'r gweithgaredd hwn ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Prynu sgwter** ond gellid yn rhwydd ei ddefnyddio'n weithgaredd ar ei ben ei hun.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ba mor aml y bydd y 13eg o'r mis yn glanio ar ddydd Gwener ac ai'r un nifer o ddyddiau Gwener y 13eg sydd ym mhob blwyddyn.

Byddan nhw'n cyflwyno'u canfyddiadau ar lafar neu ar boster.



Bydd angen



Calendrau ar gyfer y blynyddoedd gwahanol

Mae'r rhain ar gael yn hwylus ar lein, e.e.

www.calendarlabs.com/online-calendar.php (Saesneg yn unig)

Gweithgaredd 3 – Dydd Gwener y 13eg



Esboniwch

Trafodwch y ffaith bod rhai pobl yn meddwl bod dydd Gwener y 13eg yn ddiwrnod anlwcus. (*Mae llawer o bobl nad ydyn nhw'n credu hynny! Ac yn yr Eidal, maen nhw'n credu bod y rhif 13 yn lwcus, a bod dydd Gwener yr 17eg yn anlwcus.*)

Ond pa mor aml mae'r 13eg o'r mis yn glanio ar ddydd Gwener?

Ac ai'r un nifer o ddyddiau Gwener y 13eg sydd bob blwyddyn?

Rhowch galendrau ar gyfer gwahanol flynyddoedd i'r dysgwyr a gofyn iddyn nhw sawl gwaith ym mhob blwyddyn y bydd y 13eg o'r mis yn glanio ar ddydd Gwener.

Bydd y dysgwyr wedyn yn cyflwyno'u canfyddiadau ar lafar a/neu ar boster.

Neu

Bydd dysgwyr yn edrych ar wefannau penodol i ddod o hyd i'r wybodaeth hon eu hunain.



Holwch

- Ai'r un nifer o ddyddiau Gwener y 13eg sydd bob blwyddyn? Sut rydych chi'n gwybod hynny?
- Beth am eich pen-blwydd chi? Ydy eich pen-blwydd ar yr un diwrnod bob blwyddyn? Sut mae'n newid?
- Beth rydych chi'n ei wybod am flynyddoedd naid? Pa mor aml maen nhw'n digwydd? Pam y byddwn ni'n cael blynyddoedd naid?
- Sawl blwyddyn naid fyddwch chi wedi byw drwyddyn nhw pan fyddwch chi'n 60 oed?

Gwaith ymestynnol

- Sawl diwrnod sydd wedi mynd heibio ers i chi gael eich geni?